| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (BGC) |
| **Dyddiad y cyfarfod** | Dydd Mercher 23 Mawrth, 2022 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Amanda Jones, Rheolwr Gwella a Datblygu Corffaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Emma , Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Cyngor Sir Ddinbych |
| **Awdur yr adroddiad** | Hannah Edwards, Swyddog Cefnogi BGC, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **Teitl** | Asesiad Lles Conwy a Sir Ddinbych 2022 - Cymeradwyo ar gyfer cyhoeddi |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Darparu trosolwg o'r ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad yr asesiad lles a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer cyhoeddi Asesiad Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych 2022 (a gynhyrchwyd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ceisio cymeradwyaeth i gyhoeddi asesiad lles cyn y terfyn amser statudol ar 5 Mai 2022.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Cymeradwyo'r asesiad lles ar gyfer ei gyhoeddi.

3.2 Nodi'r adborth a'r argymhellion a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad a'r swyddogion i fynd i'r afael â'r rhain dros y 3 mis nesaf.

3.3 Ystyried sut mae'r BGC yn sicrhau bod yr asesiad llesiant yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol a'i fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae gwaith wedi bod ar y gweill gyda phartneriaid BGC ar draws Conwy a Sir Ddinbych ers mis Ionawr 2021 i adolygu Asesiad Lles presennol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

4.2. Yn unol â therfynau amser statudol, cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar yr asesiad lles dros gyfnod o 8 wythnos, rhwng mis Ionawr 2022 a mis Mawrth 2022. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol yn yr ymgynghoriad -

i. Ydych chi'n meddwl bod y wybodaeth yn yr Asesiad Lles yn gywir?
ii. Ydych chi'n teimlo bod angen newid unrhyw beth yn yr Asesiad Lles?
iii. Ydych chi'n teimlo bod unrhyw beth ar goll ac y dylid ei gynnwys yn yr Asesiad Lles?
iv. Sut ydych chi'n credu y byddai'r adnodd hwn o ddefnydd i chi?

4.3. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad trwy ddatganiad i'r wasg, y cyfryngau cymdeithasol (a rannwyd gyda sefydliadau partner BGC) a'u dosbarthu i ymgyngoreion statudol ac anstatudol, gan gynnwys –

- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Aelodau a Swyddogion BGC Conwy a Sir Ddinbych
- Partneriaid eraill e.e. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Cyngor Celfyddydau
- Cyd-bwyllgor Craffu BGC Conwy a Sir Ddinbych
- Sefydliadau trydydd sector perthnasol
- Aelodau o'r cyhoedd
- Busnesau Lleol
- Undebau Llafur
- Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned
- Partneriaethau Conwy a Sir Ddinbych
- Partneriaethau ar draws Gogledd Cymru e.e. BPRh a BUEGC

4.4. Derbyniwyd cyfanswm o 16 ymateb -

- 10 gan y cyhoedd trwy'r arolwg ar-lein (gan gynnwys ymateb gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
- Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru (gweler atodiad A)
- Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC Conwy a Sir Ddinbych (gweler atodiad B a pharagraff 5.1 am fwy o fanylion)
- Ymateb ysgrifenedig gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler atodiad C)
- Ymateb ysgrifenedig gan bartneriaid a grwpiau, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a Fforwm Dalgylch Afon Clwyd

4.5. Roedd y mwyafrif o ymatebion yn cytuno â chanfyddiadau'r asesiadau lles ac yn nodi y byddent yn debygol o ddefnyddio'r asesiad, ac roedd sylwadau pellach yn cynnwys –

- Dim sôn am y pwysau cyfredol ar aelwydydd, gan gynnwys y cynnydd mewn costau tanwydd.
- Angen canolbwyntio mwy ar faterion demograffig, e.e. cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio a chyfradd genedigaethau isel.
- Rhagor o ymgysylltu â chymunedau Sipsi, Roma a theithwyr.
- Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i dwristiaeth gynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â heriau hinsawdd presennol.
- Cynnwys cyfeiriad at strategaethau alcohol cyfredol
- Byddai asesu mewn Saesneg clir yn elwa
- Diffyg cyfeiriad at bobl yn cysgu allan

4.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu rhai meysydd i'w gwella (gweler yr ymateb llawn yn Atodiad A), sy'n cynnwys -

| | |
|---|---|
| **Categori A** | Mae'r rhain yn faterion sylweddol, y mae LlC yn gobeithio bod modd mynd i'r afael â hwy, cyn cyhoeddi'r asesiad lles. |

| | |
|---|---|
| Os nad ydi wedi'i gynnwys eisoes, cyfeiriad at yr adolygiadau a'r asesiadau canlynol:<br>• Adolygiad o Ddigonolrwydd darpariaeth addysg Feithrin<br>• Asesiad o Ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae<br>• Asesiad strategol brwydro yn erbyn Camddefnyddio Sylweddau<br>• Asesiad Strategol mewn perthynas â Lleihau achosion o Aildroseddu | |
| **Categori B** | Mae'r rhain yn faterion pwysig ac yn rhai a fyddai'n cefnogi cynllun lles wedi'i hysbysu'n well a rydym yn gobeithio y gellir mynd i'r afael â hwy, ochr yn ochr â datblygu'r cynllun. |
| • Rhagor o fanylion ar amrywiol gyfleoedd i ymgysylltu.<br>• Mwy o eglurhad ynghylch pam bod bylchau mewn tystiolaeth oherwydd Covid<br>• Rhagor o fanylion am y datganiad lles ym mhob un o'r ardaloedd cymunedol trwy'r ardal BGC gyfan a chymariaethau rhyngddynt. | |
| **Categori C** | Mae'r rhain yn faterion a fyddai'n cryfhau'r asesiad, ond y gellid eu datrys dros amser. |
| • Gwella hygyrchedd yr asesiad a pha mor hawdd ydi ei ddefnyddio (gweler y paragraff Strwythur a Fformat). | |

4.7 Mae swyddog cymorth y BGC wedi cyfarfod i ystyried yr adborth a datblygu cynllun i flaenoriaethu a mynd i'r afael â'r adborth dros y misoedd nesaf.

4.8 Mae gwaith hefyd yn digwydd gyda Phrifysgol Glyndŵr i ddatblygu fersiwn ffeithlun o'r asesiadau llesiant ar gyfer Gogledd Cymru. Bydd hwn yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i'r asesiadau llesiant ac yn cynnwys crynodeb o'r materion a'r themâu allweddol a nodwyd ym mhob un o'r pedwar asesiad llesiant ar draws Gogledd Cymru. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn gynnar ym mis Mai 2022.

## 5. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

5.1 Cyflwynwyd yr asesiad lles i'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC Conwy a Sir Ddinbych fel rhan o'r broses ymgynghori. Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor yn cytuno â chanfyddiadau'r asesiad, ond gan ofyn bod yr argymhelliad canlynol yn cael ei ystyried gan y BGC -

***Argymell bod y BGC, gan gynnwys ei aelodau a sefydliadau partner, yn defnyddio'u holl bwerau caffael mor lleol â phosibl, mewn ymgais i sicrhau'r pwyslais mwyaf ar gyflogaeth, lleihau ôl troed carbon yn unol â nodau lleol a chenedlaethol, cefnogi lles yn lleol a helpu i gynnal yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.***

## 6. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

6.1. Mae risg na fydd yr adnodd gwerthfawr hwn yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial gan bartneriaid. Byddwn felly'n dyfeisio rhaglen o gyhoeddusrwydd i sicrhau bod cydweithwyr o bob sector yn ymwybodol o'r Asesiad a lle i ddod o hyd iddo, a sut y gall gynorthwyo o ran gwneud penderfyniadau gwybodus.

6.2. Mae perygl nad yw partneriaid yn cadw hyn yn gyfredol a thrwy hynny bydd defnyddioldeb y safle'n cael ei danseilio, gan olygu hefyd y bydd angen adolygiad ar raddfa fawr yn y dyfodol. Gall cyswllt rheolaidd rhwng swyddogion cefnogi BGC, gyda chyfeiriad clir gan y Bwrdd, liniaru'r risg hwn.

Ers llunio'r asesiad lles cyntaf yn 2017, mae capasiti ymchwil timau Conwy a Sir Ddinbych wedi lleihau'n sylweddol. Er hyn, mae'r timau wedi cynhyrchu dogfen strategol o safon uchel ar y sefyllfa bresennol yn y ddwy sir. Pe bai mwy o allu i ymchwilio ac ymgysylltu yn y sector cyhoeddus byddai posibilrwydd o gryfhau'r Asesiad ymhellach drwy edrych ar feysydd gwannach ac unrhyw fylchau mewn gwybodaeth, a chael gwell dealltwriaeth o benderfyniadau anghydraddoldeb o ran lles.

6.3. Mae posibilrwydd y bydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried ymdriniaeth ranbarthol o ran ymchwil, data a dadansoddi a allai o bosibl liniaru'r risg hwn.

## 7. Pŵer i wneud y penderfyniad

7.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015